Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

nace Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru – NACE Cymru
Offeryn Archwilio i Arsylwi Gwersi

I fodloni gofynion Gwobr Her NACE Cymru, mae'n rhaid cyflawni'r datganiadau hynny sydd mewn print trwm, os nad mwy.

A yw'r hinsawdd ddysgu'n hybu sialens i bawb? ***A yw'r dysgwyr a'r staff yn gwerthfawrogi ac yn croesawu cynhwysiad a her i bawb?***	
A yw disgyblion yn dangos diddordeb a lefelau uchel o gymhelliant? Ydyn nhw'n: • **Ymddiddori ac yn canolbwyntio am gyfnod hir?** • **Ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch atynt eu hunain ac at eraill?** • **Ceisio gwneud yn dda ac yn mwynhau dysgu?** • Dangos synnwyr o ddisgwyliad a chyffro mewn gwersi? • Dangos chwilfrydedd, ydyn nhw'n awyddus i ddysgu a datblygu syniadau newydd? • Dangos mentergarwch ac yn barod i fynd y tu hwnt i'r dasg sydd wedi'i gosod?	**A yw athrawon yn creu hinsawdd bositif ar gyfer dysgu a herio? Ydyn nhw'n:** • **Disgwyl llawer gan eu dysgwyr?** • **Gosod amcanion digon heriol i'w gwersi a meini prawf llwyddiant y maent yn eu rhannu gyda'r dysgwyr?** • **Darparu model rôl rhagorol i ddysgwyr, gan hybu amrywiaeth a chynhwysiad mewn ffordd bositif?** • **Cydnabod a dathlu llwyddiant yn onest a darparu adborth adeiladol i wella dysgu?** • **Creu amgylchedd dysgu sy'n atgyfnerthu negeseuon dysgu allweddol?** • Cynnwys dysgwyr yn y broses o greu amcanion dysgu a meini prawf ar gyfer llwyddo? • Cydnabod a dathlu llwyddiant y tu hwnt i'r meini prawf llwyddiant disgwyliedig? • Creu amgylchedd dysgu sy'n atgyfnerthu negeseuon dysgu allweddol ac yn dathlu rhagoriaeth (e.e. dangosiadau anodedig i roi enghraifft o'r dysgu 'gorau')?
Sylwadau Ychwanegol	
A yw disgyblion yn cymryd y cyfrifoldeb am ddysgu? ***A anogir y dysgwyr i gynllunio ac a ydynt yn cael cyfleoedd i wneud hynny?***	
A all disgyblion gynllunio a threfnu eu dysgu? Ydyn nhw'n: • **Creu cysylltiadau gyda dysgu blaenorol neu ddysgu newydd?** • **Dethol a chasglu gwybodaeth berthnasol?** • **Dewis y broses neu ddull priodol?** • **Esbonio eu hymresymiad gyda chefnogaeth?** • **Cyfiawnhau eu dewisiadau?** • Adnabod tasg a gofyn cwestiynau er mwyn deall? • Pennu (a chyfiawnhau) meini prawf llwyddiant? • Cymryd y cyfrifoldeb am ddysgu e.e. yn drefnus ac yn gwneud yn fawr o'u hamser mewn gwersi? • Mynd y tu hwnt i gwmpas tasg neu'n dangos parodrwydd i wneud hynny?	**A yw athrawon yn creu cyfleoedd i ddisgyblion arwain y dysgu? Ydyn nhw'n:** • **Cyfathrebu bwriadau dysgu uchelgeisiol a chanddynt ddisgwyliadau uchel o ran canlyniadau'r dysgu?** • **Cefnogi esboniadau ac yn datblygu dysgu'r disgyblion gyda gwybodaeth sicr am y pwnc?** • **Darparu model rôl effeithiol e.e. yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i helpu dysgwyr i wneud synnwyr o dasg ac i gyfiawnhau dewis y dull priodol?** • Rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion arwain y dysgu, lle mae'r disgyblion yn cynnig ac yn dilyn llinellau ymholi newydd? • Cynllunio trefn y wers a'r amgylchedd dysgu'n ofalus e.e. nid yw'r disgyblion mwy galluog yn cyfranogi yng

	nghyflwyniad y wers lle edrychir eto ar wybodaeth sydd ganddynt yn barod? • Gwneud defnydd arloesol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu?
Sylwadau Ychwanegol	
A all y dysgwyr ymgysylltu â'r dysgu a datblygu'r dysgu? ***A yw disgyblion galluog yn cael eu herio'n gyson i feddwl yn feirniadol?***	

A all disgyblion ddatblygu eu dysgu?
Ydyn nhw'n?
• **Dangos nodweddion naturiol da ar gyfer dysgu, e.e. yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau'n dda, yn achub y blaen ac yn cymryd y cam cyntaf?**
• **Yn gweithio'n annibynnol neu'n cydweithio'n effeithiol ag eraill i ehangu eu dysgu?**
• **Yn gofyn cwestiynau perthnasol bob amser?**
• **Yn meddwl yn rhesymegol ac yn chwilio am batrymau (lle bo'n briodol) gan ddefnyddio strategaethau datrys problem?**
• Ystyried tystiolaeth a dehongliad cyn ffurfio barn a gwneud penderfyniad?
• Awgrymu dulliau eraill, ond yn dewis ac yn esbonio'r dull sydd orau ganddynt?
• Monitro cynnydd bob amser yn erbyn eu meini prawf llwyddiant eu hunain neu rai a ddewiswyd?
	A yw athrawon yn herio'r dysgwyr i gyd? Ydyn nhw'n:
	• **Disgwyl llwyddiant uchel?**
	• **Creu cyd-destunau real a pherthnasol ar gyfer dysgu sy'n galluogi disgyblion i ddefnyddio ystod eang o sgiliau?**
	• **Mabwysiadu gwahanol ddulliau darparu, i hybu / annog / darparu model rôl ar gyfer datblygu annibyniaeth y dysgwr.**
	• **Ymyrryd yn effeithiol, gan ddelio gyda neu ddefnyddio camsyniadau mewn ffordd bositif i ehangu dysgu a dealltwriaeth?**
	• **Yn defnyddio technegau holi sydd wedi'u datblygu'n dda ar gyfer:**
	  ○ **Ehangu'r meddwl e.e. cwestiynau sy'n annog a phrocio a chwestiynau lefel uwch?**
	  ○ **Modelu'r dull o asesu dysgu a dealltwriaeth e.e. 'pam' 'beth fyddai'n digwydd petai?'**
	• Gwerthfawrogi ymatebion disgyblion a'u defnyddio i ddatblygu'r dysgu (gan ganiatáu ac annog disgyblion i gymryd yr awenau yn y dysgu)?
	• Defnyddio grwpiau disgyblion yn hyblyg i annog sialens neu gydweithredu?
	• Defnyddio staff cynnal yn effeithiol er mwyn ehangu'r dysgu?

Sylwadau Ychwanegol	
A all y dysgwyr ystyried a gwerthuso? **Cwestiwn Allweddol*; A yw'r disgyblion yn dysgu o brofiad ac yn gwneud yn well na'r cynnydd a ddisgwylir?***	
A yw disgyblion: • **Yn disgrifio'r hyn maent wedi'i ddysgu?** • **Yn cysylltu dysgu gyda sefyllfaoedd neu ddysgu llai cyfarwydd?**	**A yw athrawon yn datblygu sgiliau hunanwerthuso disgyblion? Ydyn nhw'n:** • **Creu cyfleoedd i ddisgyblion ystyried yr hyn y maent yn ei ddysgu yn ystod y wers ac ar ddiwedd**

• **Yn adolygu canlyniadau ac yn dod i gasgliadau gan ddefnyddio meini prawf llwyddiant (gyda chefnogaeth lle bo'n briodol)?** • Yn dangos ystwythder o ran gwella eu dysgu ac yn gallu derbyn / dangos empathi gyda safbwyntiau sy'n gwahaniaethu? • Yn ystyried a barnu pa mor effeithiol yw'r broses neu'r dull a ddefnyddir? • Yn disgrifio strategaethau dysgu ac yn gwerthuso llwyddiant? • Yn awgrymu strategaethau ar gyfer y dyfodol neu ffyrdd o wella'r dulliau?	**gwersi, yn erbyn y meini prawf llwyddiant?** • **Defnyddio gwybodaeth sicr ac arbenigol am y pwnc i roi adborth gonest a datblygus i ddisgyblion?** • **Galluogi disgyblion i wneud cysylltiadau gyda meysydd dysgu eraill neu eu dysgu yn y dyfodol?** • Annog cymhlethdod yn atebion y disgyblion, megis defnyddio holi'n fedrus i annog atebion e.e. 'beth petai…'? • Pennu neu negodi'r camau nesaf neu lwybrau newydd ar gyfer dysgu sy'n annog mentergarwch, y gallu i ddatrys problem neu feddwl creadigol? • Ofyn i ddisgyblion ystyried pa mor dda maent wedi dysgu a pham?
Sylwadau Ychwanegol	

*